YSGOL DYFFRYN CONWY

PARCH

1

YMDDYGIAD AR GYFER DYSGU / CYFLAWNI POTENSIAL

Rhesymau pam:

- O arfarnu nodir fod angen adolygiad ac ymchwil i arfer dda o ran gweithdrefnau ymddygiad ar gyfer dysgu o fewn yr ysgol.
- O arfarnu nodir fod angen darparu Dysgu Proffesiynol priodol ar gyfer yr holl staff ar arfer wedi'i lywio gan drawma a strategaethau dad-ddwysáu.
- Mae ymddygiad a chyfeiriadau dysgwyr yn parhau i fod yn broblem i leiafrif o ddysgwyr sy'n tarfu ar ddysgu. Mae hyn wedi achosi cynnydd mewn amser dysgu a gollwyd (data Class Charts 23/24)
- O arfarnu nodir mewn lleiafrif o wersi, nad yw dysgwyr yn ymrwymo yn llawn yn eu dysgu bob amser.

Sut ydym am gyflawni hyn?

- Mabwysiadu Polisi Parch a Pherthynas newydd a fydd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd ymddygiad cadarnhaol gyda'r holl randdeiliaid, gan bwysleisio'r effaith y gall ymddygiad cadarnhaol ei gael ar gynnydd dysgwyr.
- Cynyddu gallu'r tîm bugeiliol i gefnogi dysgwyr sy'n dangos ymddygiad heriol.
- Arddel gweithdrefnau newydd Polisi Parch a Pherthynas yn drylwyr drwy rôl fodelu a chofnodi ar Class Charts.
- Olrhain a monitro data ar sail unigol, grŵp a charfan gyfan. Tîm bugeiliol yn defnyddio ymyriadau yn unol â'r darganfyddiadau.
- Mabwysiadu strategaethau wedi'u llywio gan drawma trwy Ddysgu Proffesiynol parhaus i'r holl staff.
- Sicrhau bod prosesau newydd yn cael eu harfarnu'n gyson er mwyn sicrhau ymddygiad rhagorol a pharch at bob dysgwr.

Effaith ddymunol :

- Holl rhanddeiliad yng nghymuned yr ysgol yn dangos parch at ei gilydd ac at eu hunain.
- Pob aelod o gymuned yr ysgol yn gyfrifol am gefnogi perthnasoedd cadarnhaol.
- Lleihau nifer y dysgwyr sy'n cael eu cyfeirio allan o wersi.
- Ymddygiad dysgwyr a draciwyd bob wythnos, gyda chefnogaeth staff bugeiliol yn gwella.
- Gweld cynnydd yn ymddygiad cadarnhaol y dysgwyr sydd wedi arddangos pryderon ymddygiadol o'r flwyddyn flaenorol yn dilyn prosesau tracio.
- Dysgwyr yn ymfalchio yn eu hymddygiad ac o ganlynaid yn arddel y system wobrwyo newydd.

PRESENOLDEB 2

GWELLA CYFRADDAU PRESENOLDEB A FFOCWS AR LES DYSGWYR

Rhesymau pam:

- Nid yw presenoldeb wedi dychwelyd i lefelau cyn-bandemig eto.
- Roedd presenoldeb ar gyfer 2023 - 2024 yn 89% o gymharu a chyfartaledd o 86.6% ar draws ysgolion uwchradd Conwy. Ond yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Roedd presenoldeb yn 89% yn 2023 - 2024 i lawr 1.5% o gymharu â 90.5% yn 2022 - 2023.
- Mae presenoldeb dysgwyr ADY 4.1% yn is na dysgwyr nad ydynt gyda ADY (89.6% - 85.5%).
- Mae presenoldeb dysgwyr PYDd yn sylweddol is (12%) na dysgwyr nad ydynt yn cael PYDd (90.6% - 78%).
- Mae prydlondeb i'r ysgol ac i wersi yn parhau i fod yn bryder i leiafrif o ddysgwyr sy'n tarfu ar ddysgu.
- Mae hyn wedi achosi cynnydd mewn amser dysgu a gollwyd. (data Class Charts 23/24)

Sut ydym am gyflawni hyn?

- Gosod targed uchelgeisiol o bresenoldeb o (94% , sef cynnydd o 5%.)
- Cynyddu capasiti yn y tîm presenoldeb / bugeiliol i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn presenoldeb.
- Dilyn gweithdrefnau presenoldeb a phrydlondeb yn drylwyr ac yn gadarn bob dydd.
- Olrhain a monitro data ar sail unigol, grŵp a charfan gyfan, a bydd y tîm presenoldeb / bugeiliol yn defnyddio ymyrraethau i fynd i'r afael a'r pryderon.
- Rhoi ffocws a phwysigrwydd o'r newydd gyda'r holl randdeiliaid, gan bwysleisio'r effaith y gall colli amser dysgu ei chael ar gynnydd dysgwyr.
- Bydd gweithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau bod popeth yn cael ei wneud i sicrhau presenoldeb a phrydlondeb rhagorol i bob dysgwr.

Effaith ddymunol :

- Lleihau nifer yr Absenoldebau Cyson a chynyddu presenoldeb dysgwyr PYDd o 8%.
- Gwella presenoldeb/prydlondeb dysgwyr a draciwyd bob wythnos, gyda chefnogaeth staff bugeiliol.
- Dyhead dysgwyr yn codi drwy ddefnydd effeithiol prosesau gwobrwyo a chydnabod.
- Dysgwr yn cymryd balchder o fod ar amser i'r ysgol, ac yn brydlon i wersi, oni bai bod rheswm dilys.
- Pob aelod o gymuned yr ysgol yn arddell y cyfrifoldeb o gefnogi'r cynnydd mewn cyfraddau presenoldeb a phrydlondeb.

PEDAGOGAETH 3

ADDYSGU A DYSGU / CWRICWLWM O'R RADD FLAENAF

Rhesymau pam:

- Mae Cenhadaeth Genedlaethol Cymru (2023) a Cwriwcwlwm i Gymru yn hyrwyddo'r angen i bob dysgwr ddod yn llythrennog, yn rhifog ac yn gymwys yn ddigidol, i'w galluogi i lwyddo a dod yn ddysgwyr am oes.
- Mae gweithredu Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Blwyddyn 7, 8 a 9 (o Fedi 2024) yn parhau i sicrhau ein bod yn cynnig cyfleon dysgu dwfn drwy dasgau cyfoethog er mwyn rhoi ffocws ar **cynnydd** dysgwyr.
- O arfarnu nodir fod angen inni sicrhau bod cyfleon cynyddol a chyfoethog yn y medrau i gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, sgiliau a'u dealltwriaeth.
- O arfarnu nodir bod angen i adborth ganolbwyntio mwy ar ddysgu mewn lleiafrif o lyfrau.
- O arfarnu nodir fod angen codi ymwybyddiaeth dysgwyr o'u heffeithiolrwydd a'u gwneud yn gynyddol fwy ymwybodol ac annibynnol yn eu dysgu.

Sut ydym am gyflawni hyn?

- Bydd gan ymarferwr ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylir ganddynt er mwyn sicrhau cyfleon i ddysgwyr wneud cynnydd yn eu medrau, a fydd yn cael ei gefnogi gan Ddysgu Proffesiynol.
- Bydd Meysydd Dysgu a Phrofiad yn datblygu, mireinio ac yn gweithredu teithiau dysgu clir a chynlluniau gwaith arloesol ar ddechrau pob tymor sy'n gwneud defnydd o'r cysyniad Cynllunio am yn ôl.
- Darparu Dysgu Proffesiynol ar lunio tasgau cyfoethog pwrpasol yn y medrau a strategaethau addysgu a dysgu sydd yn annog cynnydd parhaol.
- Newid pwyslais mewn gweithdrefnau arfanu i ganolbwyntio ar effaith addysgu ac adborth ar gynnydd dysgwyr.
- Parhau i ddiwygio'r gweithdrefnau asesu cynnydd ac agwedd at ddysgu ar gyfer blwyddyn 7, 8 a 9 i sicrhau bod y prosesau'n cael eu cymhwyso'n fwy cyson.
- Canolbwyntio ar adborth ar dasgau cyfoethog, ac ansawdd y tasgau bocs melyn er mwyn sicrhau y cyfle gorau i ddysgwyr wneud cynnydd.

Effaith ddymunol :

- Dysgwyr yn rhan o gwricwlwm arloesol, creadigol a phwrpasol ym Mlwyddyn 7-9.
- Dysgwyr yn arddel cyfleoedd cyson a chyfoethog drwy'r medrau i wneud cynnydd yn eu dysgu.
- Dysgwyr yn gwneud y gorau o gyfleon sy'n eu hymestyn, eu herio er mwyn cyrraedd eu potensial.
- Dysgwyr yn ymateb i adborth ffurfiannol yn dilyn tasgau cyfoethog er mwyn gwella eu dysgu, gwneud cynnydd parhaus ac ymhyfrydu eu bod yn ddysgwyr gydol oes.
- Dysgwyr yn gwneud y gorau ac yn gwneud cynnydd yn dilyn defnydd effeithiol ymarferwyr o brosesau olrhain cynnydd.
- Gwella dyhead dysgwyr a draciwyd, gyda chefnogaeth staff bugeiliol, y tîm cynnydd a thrwy ddefnydd o ymyraethau effeithiol.

YSGOL DYFFRYN CONWY

TÎM YDC

4

GRYMUSO ARWEINWYR RHAGOROL AR BOB LEFEL

Rhesymau pam:

- Mae Ysgolion yng Nghymru sy'n gweithredu fel sefydliadau sy'n dysgu (2019) yn hyrwyddo'r angen i arweinwyr ysgolion fodelu arweinyddiaeth ym maes dysgu, rhannu'r arweinyddiaeth a helpu i feithrin arweinwyr eraill, gan gynnwys dysgwyr.
- O arfarnu nodir fod angen darparu Dysgu Proffesiynol priodol ar gyfer uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ar arferion cymell a phrosesau cynllunio gwelliant.
- O arfarnu nodir fod angen i arweinwyr canol chwarae rhan fwy strategol a beirniadol ym mhrosesau arfarnu'r ysgol.
- O arfarnu nodir fod angen i uwch arweinwyr wneud arweinwyr canol yn fwy atebol wrth arfarnu safonau a darpariaeth eu hadran / maes.
- O arfarnu nodir fod angen i arweinwyr canol finiogi cyfarfodydd a phrosesau arfarnu drwy ystyried effaith eu trafodaethau ar gynnydd a dysgu.

Sut ydym am gyflawni hyn?

- Gweithredu fel 'sefydliad sy'n dysgu' yn barhaus.
- Arweinwyr ar bob lefel yn cymryd rhan lawn a strategol ym mhrosesau arfarnu'r a datblygu gwelliant yr ysgol.
- Arweinwyr Canol yn sicrhau bod blaenoriaethau a chamau gweithredu yn deillio o holl weithgareddau arfarnu au bod yn cael eu hadolygu'n a'u gweitrhedu'n brydlon ac effeithlon.
- Arweinwyr yn datblygu ac ymgysylltu â diwylliant cymell yn yr ysgol i gryfhau ansawdd y dysgu, yr addysgu a'r arweinyddiaeth ymhellach.
- Bydd gan Arweinwyr Canol ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylir ganddynt ar lefel strategol er mwyn sicrhau arweinyddiaeth ysbrydoledig, a fydd yn cael ei gefnogi gan Ddysgu Proffesiynol.
- Parhau i gydweithio gyda GwE, CyDAG, AGAA / Carneddau (ysgolion cyfoedion) i gefnogi prosesau arfarnu, Dysgu Proffesiynol, ac ar gyfer datblygu ein gallu i arwain.

Effaith ddymunol :

- Arweinwyr yn arwain er mwyn sicrhau cynnydd parhaus dysgwyr drwy strategaethau cymell a chefnogi staff.
- Pob arweinydd yn teimlo eu bod wedi eu harfogi â strategaethau arwain effeithiol wrth werthuso a datblygu'r ysgol o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.
- Pob arweinydd wrth galon prosesau sicrhau ansawdd yn eu meysydd cyfrifoldeb, gan arwain ar arfarnu, adnabod blaenoriaethau a llunio camau gweithredu clir.
- Pob arweinydd yn hyderus yn eu rôl wrth wella'r ysgol ac yn cael effaith sylweddol ar safonau dysgu, addysgu a deilliannau.
- Pob arweinydd yn defnyddio prosesau rheoli perfformiad i ysgogi gwelliannau a newid effeithiol.